



Gair i Gall



Datblygu cynnig prosiect Cenhadaeth a Gwerthoedd

Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: fudiadau sy'n ystyried datblygu syniad am brosiect ac sydd eisiau llunio'r cynnig prosiect gorau posib i gefnogi cais am gyllid.

Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Bod yn fwy tebygol o ddatblygu cynnig prosiect cryf sydd wedi ei amlinellu'n eglur ac sy'n fwy tebygol o lwyddo o'r herwydd.

Beth fydd ei angen arnoch chi:

Amser staff / ymddiriedolwyr i ddatblygu'r cynnig

Gwybodaeth am fylchau gwasanaeth ac anghenion y gymuned leol

Gwybodaeth ariannol - faint fydd cost cyflawni'r prosiect

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Wrth ystyried ceisiadau posib am gyllid ar gyfer prosiect penodol, gall datblygu cynnig prosiect helpu. **Gellir defnyddio'r ddogfen hon i'w hanfon i ddarpar gyllidwyr megis ymddiriedolaethau elusennol, neu gallech dorri a gludo testun o'r ddogfen er mwyn llenwi ceisiadau ar-lein i'r Loteri neu gronfeydd eraill.** Os byddwch chi wedi datblygu '*achos dros gael cymorth*' eisoes, byddwch chi'n gallu defnyddio rhannau o hwnnw yn eich cynnig prosiect.
- **Dylai eich cynnig gychwyn gyda chrynodeb o'r prosiect - gallai datblygu 'cyflwyniad cyflym' helpu a gallech chi ddefnyddio hwnnw fel crynodeb.** Efallai y bydd yn haws i chi ysgrifennu'r crynodeb wedi i chi gwblhau gweddill y cynnig prosiect oherwydd y dylai fod yn grynodeb o'r cynnig dros rhyw ddau baragraff.

- Rhowch gyflwyniad i'ch mudiad: rhowch wybod i'r cyllidwr am eich mudiad a pham mae modd ymddiried ynddo i ddefnyddio cyllid yn effeithiol. Rhowch grynodedb o hanes eich mudiad, amlinellwch eich hanes o gyflawni pethau, disgrifiwch eich gwasanaethau. Amlinellwch lefel eich incwm blynyddol, eich lleoliad, a phwy sy'n rhedeg y mudiad. Os oes grwpiau eraill yn gwneud gwaith tebyg yn eich ardal, eglurwch sut rydych chi'n wahanol (e.e. dalgylch, grŵp cleientiaid) a soniwch am unrhyw gydweithredu os yw hynny'n berthnasol. **Sut mae'ch prosiect chi'n unigryw? Pam mai chi sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i'r broblem?**
- Disgrifiwch y broblem / angen / sefyllfa rydych chi'n gobeithio ei datrys. Pam mae'n broblem a sut gwyddoch chi hynny? Mae angen i chi **ddarbwyllw'r cyllidwr bod hyn yn fater pwysig**, a dangos bod eich mudiad chi mewn sefyllfa dda i allu gwneud rhywbeth am y peth. Amlinellwch unrhyw ddata (cyfeiriwch at eich '*dadansoddiad o'r bylchau / asesiad o anghenion*') er mwyn dangos yr angen a sicrhewch eich bod yn cynnwys '*astudiaethau achos*' hefyd er mwyn ychwanegu stori o ddiddordeb dynol.
- **Disgrifiwch y prosiect:** Pa wasanaethau a gweithgareddau fyddwch chi'n eu darparu, ble a phryd bydd y gweithgareddau hyn yn digwydd, a pha mor aml? Pa fudd gaiff defnyddwyr y prosiect o'ch gwasanaethau chi? Sut byddwch chi'n cynnwys buddiolwyr yn y gweithgareddau?
- **Effaith a chanlyniadau:** Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni trwy'r prosiect? Beth fydd yn newid o ganlyniad i'ch prosiect? A fydd y buddiolwyr yn teimlo'n llai unig neu a fydd eu lles yn gwella?
- **Monitro a gwerthuso:** Beth fydd llwyddiant? Sut byddwch chi'n mesur eich canlyniadau? Rhowch amlinelliad cryno o'r wybodaeth y byddwch yn ei chasglu a sut byddwch chi'n defnyddio unrhyw beth a ddysgir er mwyn datblygu'r prosiect yn y dyfodol neu i'w rannu â darparwyr cludiant cymunedol mewn ardaloedd eraill.
- **Cyllideb ar gyfer y prosiect:** Faint fydd eich prosiect yn ei gostio? Ar gyfer beth mae angen y cyllid (costau cyfalaf, costau refeniw / cynnal, e.e. staff, cerbydau)? Rhowch gyllideb gyda dadansoddiad o'r costau. Nodwch a ydych wedi cysylltu â chyllidwyr eraill i geisio cyfraniad tuag at gostau'r prosiect, a pha arian sydd wedi'i sicrhau hyd yn hyn. **Mae'n bosib y bydd cyllidwyr yn disgwyl eich bod wedi gofyn am gymorth o ffynonellau eraill.**
- Gallech chi sôn hefyd am werth cyfraniadau mewn nwyddau neu wasanaethau os yw hynny'n berthnasol, er enghraifft, **gwerth ariannol oriau gwirfoddolwyr rydych chi'n disgwyl iddynt gael eu treulio ar waith y prosiect** os oes gan eich cynllun yrwyr gwirfoddol neu wirfoddolwyr eraill sy'n cyfrannu at gyflawni'r gwaith.
- Pa wahaniaeth fydd eu cyllid yn ei wneud **(sut rydych chi'n cyflawni eu hamcanion)?**
- **Cyllid ar gyfer y prosiect yn y dyfodol:** Os byddwch yn parhau â'r prosiect hwn yn y dyfodol, sut caiff ei gynnal? Nid yw'r rhan fwyaf o gyllidwyr eisiau rhoi cymorth i'r un prosiectau am byth. Mae'n bosib eu bod yn gweld mai eu rôl nhw ydy cyllido arloesi a chefnogi prosiectau newydd.

Efallai y byddant yn awyddus i weld eich bod wedi ystyried hyn, felly rhowch baragraff neu ddau yn eich cynnig prosiect yn amlinellu'ch gweledigaeth hirdymor ar gyfer y prosiect pan ddaw'r cyllid hwn i ben. **Ystyriwch sut gallech chi wneud y prosiect yn gynaliadwy.** Yn ogystal â bod yn ddefnyddiol i gyllidwyr, gallai hyn ei gwneud yn fwy tebygol hefyd y bydd eich prosiect yn llwyddiannus.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.